Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Rhymni**

**Canolfan Gymunedol Dewi Sant**
**Y Stryd Fawr**
**Rhymni**
**Tredegar**
**NP22 5NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**25 Chwefror 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Roedd Cylch Meithrin Rhymni newydd gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Ionawr 2018 fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Mae'r gwasanaeth yn darparu dwy sesiwn gofal dydd ar gyfer hyd at 16 o blant o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Mae pwyllgor wedi'i sefydlu gyda'r unigolyn cyfrifol yn gweithredu fel y cadeirydd. Y pwyllgor sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn gyffredinol ac mae wedi penodi Sarah Williams fel y person â chyfrifoldeb dros redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel darpariaeth Dechrau'n Deg nas cynhelir gyda 26 o leoedd yn y ddwy sesiwn. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yng Nghanolfan Gymunedol Dewi Sant ym mhentref Rhymni ym mwrdeistref Caerffili. Caiff Cymraeg a Saesneg eu defnyddio drwy gydol y sesiynau.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar, lle mae ystod dda o adnoddau ar gael iddynt. Gallant gyfeirio eu chwarae a chaiff eu diddordebau a'u dewisiadau eu hystyried gan y staff. Mae'r plant yn cael gofal gan ofalwyr medrus a phrofiadol sy'n ymrwymedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddysgu a datblygiad y plant. Mae person â chyfrifoldeb profiadol yn rhoi cymorth da i'r tîm ac yn sicrhau bod y plant yn cael y gofal a'r sylw sydd eu hangen arnynt er mwyn ffynnu yn y gwasanaeth. Mae'n rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol, er bod angen atgyfnerthu rhai gweithdrefnau rheoli. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a chynhelir asesiadau diogelwch yn rheolaidd er mwyn sicrhau llesiant y plant.

**2. Gwelliannau**

Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol:

Rheoliad 20 (2) (a) Nid oedd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i wneud ar gyfer un aelod o'r staff;
Rheoliad 28 (2) (ii) Atodlen 2 Nid oedd gwybodaeth na dogfennaeth foddhaol ar gael mewn perthynas ag un aelod o'r staff i gadarnhau addasrwydd yr unigolyn i weithio gyda phlant.

Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth am fod y darparwr wedi delio â'r mater ar unwaith.

Gwnaethom nifer o argymhellion a grynhoir ar ddiwedd yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, llawn cymhelliant ac yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth. Mae amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau rhyngweithiol ysgogol ar gael i'r plant sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Maent yn gyfarwydd â threfn y diwrnodau ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n fagwrus ac yn gefnogol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Ar y cyfan, mae'r plant yn gwneud eu dewisiadau eu hunain o ran sut a ble yr hoffent chwarae. Maent yn symud o amgylch yr ystafell chwarae yn annibynnol ac yn hyderus i gymryd rhan yn y gweithgareddau o'u dewis. Caiff pob ymdrech i gyfathrebu ei werthfawrogi ac maent yn cael eu hannog i fynegi eu barn yn rhydd. Mae'r plant yn dewis caneuon i'w canu allan o het a gaiff ei phasio o amgylch yn ystod amser cylch. Cânt eu cefnogi i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar eu chwarae a dilyn eu diddordebau unigol. Defnyddiwyd diddordeb un plentyn mewn cymeriad cartŵn penodol fel man cychwyn er mwyn datblygu ymhellach sgiliau creadigol a gwybodaeth berthnasol rhai o'r plant.

Mae'r plant yn mynegi eu dymuniadau yn rhydd ac yn hyderus.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn cael gofal cyson a chefnogol. Caiff pob plentyn a'i deulu ei groesawu'n unigol gan y staff. Yn ystod amser cylch, caiff pob plentyn ei groesawu drwy ddefnyddio ei enw mewn cân. Gwnaethom arsylwi fod y plant yn mynd at y staff i gael cysur a sicrwydd a gwelsom eu bod yn cael gofal ymatebol ac amserol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gartrefol ac yn ymddangos fel petaent yn mwynhau'r amgylchedd ac yn fodlon arno. Mae rhai plant yn y broses o ymgartrefu ac yn adeiladu ar nifer y diwrnodau maent yn eu treulio yn y gwasanaeth. Roedd yn amlwg nad oedd rhai yn barod i eistedd gydag eraill yn ystod amser cylch. Dangosodd y plant eu gwaith crefft i ni a oedd wedi cael ei arddangos ar y waliau. Mae hyn yn dangos bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn dathlu eu creadigrwydd.

Caiff llesiant emosiynol y plant ei gyfoethogi drwy'r gydberthynas gadarnhaol â'u gofalwyr a'u cyfoedion.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant ar gam cynnar o ran datblygu sgiliau i ymdopi â'u teimladau. Maent yn dysgu sut i fynegi eu hemosiynau'n briodol ac maent yn cael arweiniad a chymorth gan y staff pan fo angen. Maent yn gyfarwydd â threfn y diwrnodau sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd a strwythur iddynt. Gwnaethom arsylwi ar y plant yn chwarae â dŵr gyda'i gilydd, gan rannu'r adnoddau a mwynhau’r teimladau o ddiferu ac arllwys. Roedd yn well gan rai o'r plant chwarae ar eu pen eu hunain ac maent yn dysgu i

gydweithio ag eraill. Dywedodd y staff wrthym fod gemau cymryd eich tro fel lotto yn cael eu defnyddio i hyrwyddo rhannu.

Mae'r plant yn cael budd o'r cymorth sydd ar gael er mwyn eu helpu i feithrin cydberthnasau gwerthfawr ac adeiladol.

**1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?**

Caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu ac ehangu eu diddordebau. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig sy'n mwynhau archwilio'r amgylchedd. Caiff y plant gyfleoedd i chwarae gemau dychmygus a chânt eu hannog i fynegi eu hunain yn greadigol gyda'r adnoddau chwarae rôl sydd ar gael iddynt. Gwnaeth y plant fwynhau gweithgareddau â thema yn seiliedig ar 'dywydd oer a rhewllyd' a gwnaethant ddangos y plu eira a wnaed fel gweithgaredd crefft. Roeddent yn awyddus i gyffwrdd â'r iâ yn yr hambwrdd dŵr a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn edrych ymlaen at weld yr eira. Roedd llawer o'r plant yn gwerthfawrogi gweithgareddau chwarae sy'n gwneud llanast ac yn dyfalbarhau â'r gweithgareddau hynny, megis paentio a thoes chwarae ac yn dangos cyffro ac ymdeimlad o gyflawniad. Gwelsom y plant yn canolbwyntio ar baentio ac yn cymryd eu hamser gyda'u paentiadau, gan eu bod yn edrych ymlaen at fynd â nhw adref at eu rhieni. Roedd angen cymorth a chefnogaeth gan y staff ar rai o'r plant newydd i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Caiff datblygiad cyffredinol y plant ei hyrwyddo gan ansawdd y profiadau chwarae a ddarperir

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol. Cânt eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain a chânt eu hysgogi i gyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Mae'r plant yn llawn cyffro ac wrth eu bodd yn chwarae yn yr awyr agored a bod yn fywiog ac yn egnïol yn chwarae ar feiciau a dringo, gan ddatblygu sgiliau corfforol. Mae'r plant yn dechrau deall rhywfaint o Gymraeg sylfaenol gan ei bod yn cael ei defnyddio'n rheolaidd yn y gwasanaeth, er nad yw'n cael ei defnyddio'n gyson. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn falch bod eu plant yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Nid yw'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau hunangymorth yn ystod amser byrbryd, am nad ydynt yn cael cyfle i arllwys diodydd, paratoi na dewis eu bwyd.  Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli i'r plant ddatblygu ystod ddefnyddiol o sgiliau.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd a phrofiadau da i ddatblygu ystod o sgiliau. Mae hefyd angen cyfleoedd i ddatblygu sgiliau hunangymorth

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae ystod dda o systemau a gweithdrefnau ar waith sy'n sicrhau y caiff iechyd a diogelwch y plant eu rheoli'n briodol. Mae gan dîm y staff y wybodaeth a'r profiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'r plant. Gwelsom y caiff polisi diogelu ei reoli'n drylwyr a'i fod yn sail i'r holl arferion.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae systemau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn cofnodi ac yn monitro materion sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch y plant. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn hyderus i gydnabod a delio ag unrhyw bryderon. Maent yn defnyddio llinell gymorth sy'n rhoi cymorth penodol ar sut i ddelio ag unrhyw faterion diogelu. Gwneir atgyfeiriadau at yr asiantaeth briodol pan fo angen. Mae anafiadau'r plant sy'n bodoli eisoes a damweiniau sy'n digwydd yn y gwasanaeth hefyd wedi'u cofnodi'n dda ac yn cael eu monitro'n systematig. Mae'r polisi diogelu yn cyfeirio at y strategaeth Atal.

Mae'r gwasanaeth yn y broses o gwblhau'r fenter Blynyddoedd Cynnar Iach sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu ethos ac amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd. Mae'r plant yn cael eu hannog i frwsio eu dannedd ar ôl bwyta pryd o fwyd o fwydlen faethlon. Nid oedd y fwydlen wedi cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd at sylw'r rhieni yn ystod ein hymweliad. Mae ffurflen feddyginiaethau sy'n cael ei defnyddio i gofnodi unrhyw feddyginiaethau a roddir i'r plant, ac mae'r rhieni yn ei llofnodi. Gwnaethom nodi nad oedd y dogn diwethaf a roddir gan y rhieni gartref wedi'i gofnodi ar y ffurflen hon. Rhoddir sylw da i'r wybodaeth fonitro mewn perthynas ag alergenau'r plant.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy gynnal gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth sy'n amlinellu pwysigrwydd strategaethau cadarnhaol ac effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad er mwyn hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r staff wedi mynychu hyfforddiant rheoli ymddygiad ac mae'r person â chyfrifoldeb yn deall bod angen dod o hyd i reswm dros unrhyw ymddygiad annymunol. Gwelsom eu bod yn gyson o ran dull gweithredu ac yn ystyriol o oed a cham ddatblygiad y plant wrth reoli materion ymddygiad. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn plygu lawr i lefel y plant a chynnal cyswllt llygaid. Roedd y plant yn cael canmoliaeth a gwobrau am roi cynnig ar bethau a chyflawni pethau ac roeddent yn gwerthfawrogi ymgymryd â rôl y 'daily helper'. Gwelsom fod pethau yn tynnu sylw rhai plant a'u bod yn mynd yn aflonydd yn ystod y bore ac roeddent yn holi'r person â chyfrifoldeb ynglŷn ag amser byrbryd, a oedd am 11am. Gwnaethom ofyn iddi ystyried a fyddai symud amser y byrbryd yn gynharach o fudd i'r plant. Gwnaethom hefyd

drafod uchder sain a thôn y staff wrth ryngweithio yn ystod amser cylch, a oedd yn uchel iawn weithiau, ac nid yw'n cyfrannu at gynnal amgylchedd tawel.

Mae'r staff yn defnyddio strategaethau priodol i reoli rhyngweithio. Mae angen rhoi mwy o sylw i gynnal amgylchedd hamddenol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn ymateb i anghenion emosiynol a chorfforol y plant. Mae'r gweithwyr allweddol yn cael eu neilltuo i'r plant a'u rôl yw sicrhau eu bod yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu rhagweld eu hanghenion gyda strategaethau cynllunio da. Mae'r gweithwyr allweddol yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen er mwyn asesu a deall anghenion y plant pan fyddant yn dechrau defnyddio'r gwasanaeth. Maent yn pennu targedau realistig, gwerthuso canlyniadau ac yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried. Mae'r rhieni yn rhan o'r broses hon ac yn llofnodi'r holl ddogfennau cynllunio. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu natur unigryw a chaiff amrywiaeth dda o draddodiadau aml-ddiwylliant a thraddodiadau lleol eu dathlu er mwyn ehangu safbwynt y plant o'r byd. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio'r Gymraeg drwy gydol y sesiynau ond mae'r plant yn clywed y staff yn cyfathrebu yn Saesneg ac nid yw hynny yn hyrwyddo amgylchedd cwbl Gymraeg.

Mae'r staff wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion datblygiad unigol y plant ac i hyrwyddo eu dysgu.

## 2. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn amgylchedd twt yng Nghanolfan Gymunedol Dewi Sant yng nghanol Rhymni. Mae un ystafell i'r plant ei defnyddio sydd wedi'i rhannu yn ardaloedd dysgu y Cyfnod Sylfaen. Mae ardal chwarae yn yr awyr agored ar flaen yr adeilad a neuadd fawr y gellir ei defnyddio ar gyfer chwarae rhagweithiol pan fo angen.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod systemau ar waith er mwyn cynnal amgylchedd diogel. Cynhelir asesiadau risg ar bob ardal ac ar gyfer pob gweithgaredd a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom restr wirio ddyddiol y mae'r staff yn ei defnyddio bob bore i fonitro'r cyfleusterau. Caiff pob ymwelydd ei fonitro er mwyn osgoi mynediad diawdurdod ac yn llofnodi pan fyddant yn cyrraedd y safle a phan fyddant yn ei adael. Caiff ymarferion tân eu cynnal bob mis a chedwir cofnodion da o bawb a gymerodd ran ac unrhyw anawsterau a godwyd. Yr awdurdod lleol sy'n berchen ar yr adeilad ac yn gwirio'r cyfarpar tân. Caiff y systemau nwy a thrydan eu profi yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrifau gwasanaethu ar gael yn ystod yr arolygiad a chawsant eu hanfon ymlaen yn dilyn yr arolygiad.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel a bod risgiau yn cael eu dileu.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r cyfleusterau yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Gwnaethom edrych ar y gofrestr o'r plant a rotas y staff ac roeddent yn dangos cydymffurfiaethau â'r cymarebau priodol bob amser. Nid yw'r gwasanaeth yn cadw cofnodion gofynnol o amseroedd cyrraedd a gadael penodol y plant. Mae'r hysbysfwrdd yng nghyntedd y ganolfan gymunedol yn rhoi gwybodaeth am y gwaith o redeg y gwasanaeth, sy'n ddefnyddiol i'r rhieni. Mae hyn yn cynnwys y datganiad o ddiben, polisïau amddiffyn plant a pholisïau eraill, ynghyd â rolau, cyfrifoldebau a chymwysterau'r staff. Nid oedd unrhyw ffotograffau o'r staff a allai fod yn ddefnyddiol i blant, rhieni ac ymwelwyr newydd at ddibenion adnabod y staff. Mae adnoddau ar gael yn hawdd i'r plant ac mae'r gofod wedi'i gynllunio er mwyn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac mae wedi'i ystyried o safbwynt y plentyn. Roedd ardal y toiledau wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac yn hygyrch. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw beiriannau cyflenwi tywelion papur wedi'u gosod ac nad oedd gorchudd ar y bin yn yr ardal hon.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn cynnal a chadw'r amgylchedd i fod yn addas i'r plant ac mae hyn yn hyrwyddo eu datblygiad.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol addas o ansawdd da, dan do ac yn yr awyr agored, ar gael i'r plant. Gwnaethom arsylwi ar y systemau effeithiol a oedd ar waith er mwyn cynnal a chadw a glanhau'r holl gyfarpar. Mae'r staff yn gyfrifol am gynnal a chadw'r holl adnoddau a sicrhau bod ardaloedd chwarae yn lân ac wedi'u cyflenwi'n briodol. Mae'r unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal y ganolfan gymunedol yn glanhau'r ystafell bob dydd. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio adnodd archwilio atal a rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn rheoli a lleihau unrhyw heintiau. Mae'r ddogfen hon yn sicrhau y caiff canllawiau cyfredol ac arfer gorau eu dilyn mewn perthynas â materion iechyd a hylendid. Dywedodd y person â chyfrifoldeb ei bod hi'n bwriadu datblygu'r ardal awyr agored i gynnwys ardaloedd plannu ychwanegol a hefyd i orchuddio'r ffens er mwyn cynnal preifatrwydd y plant.

Mae ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar yn helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn effeithiol ar y cyfan ac mae rhai systemau da ar waith er mwyn monitro a gwerthuso'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael am aelod newydd o'r staff er mwyn cadarnhau ei haddasrwydd i weithio gyda phlant.

### Ein canfyddiadau

**4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?**

Mae'r arweinyddiaeth yn rhagweithiol ac mae'r gwasanaeth wedi'i reoli'n dda ar y cyfan gan y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol. Mae datganiad o ddiben ar waith y mae angen ei ddiweddaru rhywfaint, ond sy'n rhoi syniad clir o'r hyn y gall y rhieni ei ddisgwyl ar gyfer eu plant. Mae'r person â chyfrifoldeb yn deall bod angen cyflwyno'r ddogfen hon i AGC pan gaiff ei newid. Mae dirprwy yn gallu cyflenwi ar gyfer y person â chyfrifoldeb os bydd angen. Gwelsom y matrics hyfforddiant, a oedd yn nodi dyddiadau'r holl weithgareddau hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y staff fel rhan o'r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r tîm cyfan yn ymrwymedig i ddysgu a datblygu sgiliau a gwybodaeth yn rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhaeadru'r holl ddysgu mewn cyfarfodydd tîm ar ôl iddynt fynychu unrhyw ddiwrnodau hyfforddiant. Gwelsom fod yr holl bolisïau angenrheidiol ar waith ond roedd angen adolygu a diweddaru nifer ohonynt.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ar y cyfan ond mae angen adolygu a diweddaru dogfennau hanfodol.

**4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?**

Mae'r person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol yn ymrwymedig i werthuso a gwella'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad angenrheidiol ar ansawdd y gofal yn y broses o gael ei gwblhau ac mae'r person â chyfrifoldeb yn deall bod angen anfon y ddogfen hon at AGC yn flynyddol. Gofynnir i'r rhieni, y plant a'r staff roi eu barn ar ansawdd darpariaeth y gwasanaeth ac mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu cynnwys y wybodaeth hon yn yr adroddiad. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Dechrau'n Deg ac asiantaeth gymorth fantell genedlaethol ac mae'n defnyddio'r holl adborth i wella ac ehangu darpariaeth y gwasanaeth. Mae polisi cwyno ar waith. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw gwynion. Ar hyn o bryd, nid yw'r polisi hwn yn amlinellu rôl AGC mewn perthynas ag unrhyw bryderon.

Mae systemau i gefnogi datblygiadau gwasanaeth ar waith.

**4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?**

Defnyddir y tîm yn effeithiol ac mae pob aelod o'r staff yn glir ynghylch ei gyfrifoldebau. Gwelsom fod trefniadau cynllunio dyddiol ar waith a oedd yn nodi aelodau o'r staff i gyflawni tasgau penodol. Mae gan bob unigolyn ardal i'w chynnal a sicrhau bod yr holl adnoddau wedi'u gosod. Cynhelir cyfarfodydd tîm bob pythefnos a

chânt eu defnyddio i gynllunio gweithgareddau a neilltuo tasgau. Mae'r staff yn cael cymorth da gan y person â chyfrifoldeb sy'n brofiadol ac yn awyddus i ystyried yr holl adborth er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio er mwyn rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu harferion ac i ystyried eu datblygiad proffesiynol. Byddai staff yn cael budd o gyfarfodydd sy'n fwy rheolaidd/ Mae pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau blynyddol. Gwelsom fod un aelod newydd o'r staff wedi dechrau gweithio yn y gwasanaeth cyn i unrhyw wiriadau i gadarnhau a oedd yn addas i weithio yn y gwasanaeth gael eu cynnal. Roedd y person â chyfrifoldeb yn mynd ati'n rhagweithiol i gael gafael ar y dogfennau angenrheidiol ac felly nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. Mae'r gwiriadau ar gael ar gyfer pob aelod arall o'r tîm.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn rhoi cymorth i'r staff. Mae angen i rai gweithdrefnau gael eu rhoi ar waith yn fwy cadarn.

**4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda'r rhieni er mwyn meithrin ymddiriedaeth a sicrhau trefniadau cyfathrebu clir. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn nodi anghenion a dewisiadau unigol y plant. Mae'r rhieni yn rhoi gwybodaeth i'r gwasanaeth am eu plant cyn iddynt ddechrau. Mae hyn yn cynnwys anghenion iechyd y plant, eu dewisiadau a'u gwybodaeth gyswllt. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon ar y broses ymgartrefu ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i'r plant gynyddu'r oriau y maent yn eu treulio yn y gwasanaeth, pan fyddant yn barod i wneud hynny. Mae'r rhieni yn cael pecyn sefydlu sy'n cynnwys gwybodaeth dda am bob agwedd ar y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynnal cysylltiadau ag amrywiaeth o bartneriaid o wasanaethau Iechyd ac Addysg sydd o fudd i'r plant.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn annog ac yn cynnal partneriaethau er mwyn cynyddu buddiannau'r gwasanaeth i'r plant i'r eithaf.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella:

- Darparu rhagor o gyfleoedd i'r plant ddatblygu sgiliau hunangymorth a'u sgiliau annibyniaeth;
- ystyried buddiannau symud amser byrbryd i amser cynharach yn ystod sesiynau'r bore;
- darparu copi o'r fwydlen ddyddiol ar yr hysbysfwrdd at sylw'r rhieni;
- cynnwys y dogn diwethaf o feddyginiaeth a roddir gan y rhieni gartref ar daflenni meddyginiaeth unigol;
- cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael penodol y plant;
- arddangos ffotograffau o'r staff ar yr hysbysfwrdd ar gyfer plant, rhieni ac ymwelwyr newydd;
- lleihau uchder sain y staff wrth ryngweithio, yn enwedig yn ystod amser cylch;
- cadw cofnod o dystysgrifau gwasanaethu'r holl gyfleustodau yn y gwasanaeth;
- gosod peiriant cyflenwi tywelion papur yn ardal y toiledau;
- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas cyn iddynt ddechrau gweithio gyda'r plant;
- adolygu a diweddaru'r holl bolisïau bob blwyddyn o leiaf;
- sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol ffurfiol yn rheolaidd gyda'u rheolwr llinell.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn a oedd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar ôl cofrestru oedd hwn. Cynhaliodd un Arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 15 Ionawr 2019 ac ymweliad â rhybudd ar 16 Ionawr am chwe awr ar y diwrnod cyntaf a thair awr ar yr ail ddiwrnod. Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a gânt drwy gydol y sesiynau gan ddefnyddio ein hadnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae hyn yn galluogi'r arolygwyr i arsylwi ar fywyd a'i gofnodi o safbwynt plentyn ac yn nodi sut mae'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir:

- Gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r safle y tu mewn a'r tu allan;
- gwnaethom siarad â nifer o blant, pedwar rhiant, tri aelod o'r staff a'r person â chyfrifoldeb
- gwnaethom edrych ar y wybodaeth a oedd eisoes ar gael fel rhan o'r broses gofrestru;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg, dogfennau, polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch gan gynnwys y polisïau diogelu a rheoli ymddygiad. Gwnaethom hefyd edrych ar ffeiliau pum aelod o'r staff a ffeiliau tri phlentyn a
- gwnaethom roi adborth manwl i'r person â chyfrifoldeb ac argymhellion arfer da.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Dion Tuck** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sarah Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **16** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 i 4 oed** |
| **Oriau agor** | **9.15-11.45 a 12.30-15.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf ar ôl ailgofrestru ym mis Ionawr 2018** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **15 ac 16 Ionawr 2016** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Mae hwn yn wasanaeth nas chynhelir sy'n cynnig 26 o leoedd Dechrau'n Deg** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion diwylliannol ac ieithyddol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim** | |